Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# NODYN CYFARWYDDYD GWRESOGI AC OERI 2025-2030

**Sefydliad sy'n barod ar gyfer y dyfodol lle mae cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori ar draws addysg, ymchwil, gweithrediadau ac arfer dyddiol, gan anrhydeddu ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

## CYNNWYS

CYNNWYS ........ 2
1. Cyflwyniad ........ 3
2. Diben ........ 4
3. Cwmpas ........ 5
4. Rheoliadau ........ 6
5. Safonau ........ 7
5a. Safonau Gwresogi ........ 7
5b. Safonau Oeri ........ 7
6 Cyfrifoldebau ........ 9
6a. Cyfrifoldebau Defnyddwyr Adeiladau ........ 9
6b. Cyfrifoldebau Ystadau ........ 9
6c. Gwresogi Atodol ........ 9
7. Monitro ........ 11
8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill ........ 12
*Cymeradwyo* ........ **Error! Bookmark not defined.**

## 1. Cyflwyniad

Ceisia’r nodyn canllaw hwn egluro'r trefniadau a'r disgwyliadau ar gyfer gwresogi ac oeri adeiladau'r Brifysgol. Y nod yw darparu tymheredd gweithio cyfforddus yn ystod oriau gweithredu craidd, tra'n sicrhau nad yw ynni’n cael ei wastraffu trwy ordwymo neu or-oeri.

Mae'r Brifysgol yn ceisio cyfyngu ar ei heffaith amgylcheddol a'r costau cysylltiedig sy'n deillio o ddefnyddio ynni, tra'n cynnal gweithgareddau'r Brifysgol. Cyflawnir hyn, yn rhannol, trwy wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni trwy fonitro’r defnydd o ynni, nodi a dileu defnydd diangen o ynni a dilyn rhaglen o arbed ynni.

Dylid darllen y nodyn canllaw hwn ar y cyd â Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol Grŵp PCYDDS 2025-2030 a Chynllun Lleihau Carbon 2025-2030. Mae'r Brifysgol yn gwario swm sylweddol o arian ar ynni ac mae'r costau'n cynyddu'n sylweddol; mae'r defnydd o ynni yn deillio’n bennaf o wresogi, oeri a defnyddio offer trydanol yn ein hadeiladau.

## 2. Diben

Amcan y Brifysgol yw darparu amgylchedd gwaith cyfforddus i'r holl staff a myfyrwyr, a chydymffurfio â gofynion Iechyd a Diogelwch, tra'n lleihau allyriadau carbon a chostau sy'n deillio o weithredu systemau gwresogi ac oeri.

Bydd yr holl adeiladau academaidd a phreswyl yn cael eu gwresogi i rhwng 18 a 21°C yn ystod y tymor gwresogi. Mae hwn yn dymheredd cyfartalog; gall y tymheredd gwirioneddol amrywio o fewn adeiladau ac ar wahanol adegau o'r dydd. Pan nad yw ardaloedd yn cael eu defnyddio naill ai fel llety swyddfa, mannau addysgu neu ystafelloedd preswyl (h.y. gweithdai, ystafelloedd offer, mannau cylchredeg ac ati), ni fydd yr isafswm tymheredd a gynhelir yn llai na'r isafswm statudol. Mae'r Brifysgol yn gweithredu sawl man addysgu arbenigol (h.y. stiwdios dawns, theatrau a champfeydd), a bydd ystadau yn gweithio gyda defnyddwyr y cyfleusterau hyn i sicrhau bod gwresogi ac oeri yn ddigonol.

Nid yw aerdymheru / oeri yn safonol ledled y Brifysgol, ac ni ddarperir system oeri er cysur. Pan ddarperir system aerdymheru / oeri, caiff ei osod i ddim is na 25°C.

Diben y polisi hwn yw helpu defnyddwyr i ddeall strategaeth wresogi ac oeri y Brifysgol.

## 3. Cwmpas

Wedi'u cynnwys o fewn cwmpas y polisi hwn mae'r meysydd canlynol:

- Staff y Brifysgol
- Myfyrwyr y Brifysgol
- Myfyrwyr mewn neuaddau preswyl
- Undeb y Myfyrwyr
- Cwsmeriaid masnachol ar y safle
- Partneriaid a rhanddeiliaid eraill

## 4. Rheoliadau

Mae Rheoliadau yn y Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992 yn gosod gofynion penodol ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau ar yr amgylchedd gwaith. Mae rheoliad 7 yn ymdrin yn benodol â'r tymheredd mewn gweithleoedd dan do ac yn nodi *"yn ystod oriau gwaith, bydd y tymheredd ym mhob gweithle y tu mewn i adeiladau yn rhesymol.*

Noda Cod Ymarfer Cymeradwy yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *"yn ystod oriau gwaith rhaid cynnal tymheredd mewnol rhesymol ac ni ddylai hyn fod yn llai na 16°C oni bai bod y gwaith yn cynnwys ymdrech gorfforol ddifrifol ac yn yr achos hwnnw gellir gostwng y tymheredd i ddim llai na 13°C".* Nid yw'r tymereddau hyn yn ofynion cyfreithiol absoliwt ac mae gan y Brifysgol ddyletswydd i benderfynu beth fydd cysur 'rhesymol' mewn amgylchiadau penodol. Nid oes uchafswm tymheredd wedi'i nodi yn y Rheoliadau na'r Cod Ymarfer cysylltiedig.

Polisi'r Brifysgol yw darparu amgylchedd gweithio/byw cyfforddus. Mae cysur thermol yn oddrychol ac mae'n rhaid ystyried llawer o ffactorau fel:

- amodau amgylcheddol allanol,
- ffactorau personol (megis dillad a dewisiadau personol),
- cyflwr ffisegol yr adeilad. Er enghraifft, oedran a lleoliad yr adeilad, oedran a chynllun y system wresogi a'r rheolaethau.

Cydnabyddir na fydd pawb yn sicrhau 'cysur thermol' ar 18-21°C. Y gorau y gellir ei gyflawni'n realistig mewn unrhyw sefyllfa yw amgylchedd sy'n bodloni'r mwyafrif o bobl. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ystyried bod 80% o'r bobl sydd yno yn ffigwr rhesymol ar gyfer y nifer lleiaf o bobl a ddylai fod wedi sicrhau cysur thermol mewn amgylchedd.

## 5. Safonau

### 5a. Safonau Gwresogi

Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gynnal tymheredd yr adeilad rhwng 18-21°C yn ystod oriau gweithredu craidd y tymor gwresogi. Mae'r tymor gwresogi fel arfer rhwng Hydref ac Ebrill, yn gynwysedig, yn dibynnu ar amodau tywydd. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod amodau tywydd tymhorol yn amrywio a bydd asesiad o'r amodau tywydd ar y pryd yn cael ei wneud gan Ystadau a bydd y tymor gwresogi'n cael ei ymestyn neu ei fyrhau fel y bo'n briodol. Bydd hyn fel arfer yn cael ei wneud trwy edrych ar ystod tymheredd dros sawl diwrnod.

Y tu allan i'r tymor gwresogi, mae'r System Rheoli Adeiladau yn monitro'r tymheredd allanol ac mae'r system wresogi yn cychwyn os yw'r tymheredd yn gostwng o dan 13°C.

Pan nad yw ardaloedd yn cael eu defnyddio fel llety swyddfa neu fannau addysgu (h.y. gweithdai, ystafelloedd offer, mannau cylchredeg ac ati), ni fydd yr isafswm tymheredd a gynhelir ar gyfer pob man gweithio yn llai na'r isafswm statudol.

Mae'r oriau gwresogi arferol rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau Banc a diwrnodau cau'r Brifysgol, dros gyfnod y tymor gwresogi.

Bydd llety preswyl i fyfyrwyr yn cael ei gynhesu rhwng 6.30am ac 11pm, lle mae rheolaeth ganolog ar gael, yn amodol ar reolaethau thermostatig safonol yr ystafelloedd.

Y tu allan i gyfnodau meddiannaeth craidd, mae pob adeilad wedi'i osod i dymheredd diofyn o 10 i 12°C i gynnal gwead yr adeilad ac i ddiogelu pibellau dŵr.

Caiff canolfannau chwaraeon, llyfrgelloedd ac ardaloedd addysgu gyda'r nos eu gwresogi i gwmpasu eu horiau agor. Dylai rheolwyr mannau a ddefnyddir y tu allan i oriau gwresogi arferol roi gwybod i'r tîm Ystadau Gweithredol am unrhyw oriau annormal.

Addasu'r tymheredd: yn ogystal â rheolaeth ganolog, mae gan y rhan fwyaf o reiddiaduron eu rheolydd tymheredd eu hunain. Maent yn synhwyro tymheredd yr aer lleol ac mae hyn yn newid llif y dŵr yn y rheiddiadur. Gallwch newid y rheolydd tymheredd i lefel o 2 neu 3 ac yna ei adael i fod.

Ni fydd troi'r rheolydd i'r tymheredd uchaf yn cynhesu'r ystafell yn gyflymach. Bydd mewn gwirionedd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd eich ystafell yn gordwymo, gan arwain at agor ffenestri, neu ddiffodd y falf. Os caiff ei adael wedi'i ddiffodd, gall yr ystafell fod yn oer y bore wedyn.

Os oes amgylchiadau penodol lle bydd angen ystyriaeth arbennig efallai ar unigolion, am resymau iechyd, dylai rheolwyr gyfeirio at yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch am gyngor.

### 5b. Safonau Oeri

Nid yw aerdymheru / oeri yn safonol ar draws ystâd y Brifysgol.

Nod y Brifysgol yw lleihau'r ddarpariaeth a'r defnydd o aerdymheru / oeri yn nhermau gosod a defnydd. Mae cyflenwi a defnyddio systemau aerdymheru / oeri mewn ystafelloedd yn arwain at fwy o ddefnydd o ynni, mwy o allyriadau carbon (yn sgil y defnydd cynyddol o ynni a nwyon oeri sydd ynddynt) a mwy o gostau rhedeg. Nid yw'r Brifysgol yn darparu system 'oeri er cysur'.

Bydd systemau aerdymheru / oeri yn cael eu rheoli'n llym gan yr Adran Ystadau.

Nid oes tymheredd uchaf cyfreithiol ar gyfer mannau a feddiannir, a lle bo system aerdymheru / oeri wedi'i gosod, bydd tymheredd y man hwnnw'n cael ei osod heb fod yn is na 22°C a'r system yn cael ei

gosod i oeri dim ond pan fydd rhywun yn bresennol. Dylai holl ddrysau a ffenestri'r man sydd wedi'i oeri aros ar gau a dylai unrhyw wres fod wedi'i ddiffodd.

Deellir y gall rhai mannau ordwymo, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf a dylid tynnu sylw'r adran Ystadau at y rhain. Ni chaniateir defnyddio unedau oeri cludadwy yn adeiladau'r Brifysgol heb ganiatâd penodol Ystadau.

## 6 Cyfrifoldebau

### 6a. Cyfrifoldebau Defnyddwyr Adeiladau

Gofynnir i ddefnyddwyr adeiladau gynorthwyo Ystadau drwy adrodd am yr holl broblemau gwresogi, ac addasu eu hymddygiad eu hunain i gydddnabod amodau amgylcheddol.

Disgwylir y bydd defnyddwyr adeiladau yn:

- Derbyn efallai na fydd eu barn nhw am dymheredd derbyniol yr un fath â barn defnyddwyr eraill yr adeilad; mae dewisiadau tymheredd personol yn amrywio'n fawr ymhlith unigolion
- Gwisgo dillad addas. Gall pob haen ychwanegol wella cysur o 2-3°C
- Dangos goddefgarwch a dealltwriaeth ddyledus, yn enwedig os ydynt mewn adeiladau na chafodd eu hadeiladu i safonau modern
- Rhoi gwybod am achosion o or/tandwymo drwy roi gwybod i'r ddesg gymorth Ystadau yn ôl yr angen. Problem - C2 PCYDDS
- Cadw gwres yn yr adeilad trwy gau drysau a ffenestri, fel y bo'n briodol
- Sicrhau nad yw rheiddiaduron a gwresogyddion darfudol wedi'u blocio gan ddodrefn, dillad, tywelion ac ati.
- Peidio â defnyddio gwresogyddion trydan cludadwy gan eu bod yn peri risg tân sylweddol ac yn ymyrryd â rheolaethau adeiladau. Bydd hyn yn effeithio ar gysur cydweithwyr mewn rhannau eraill o'r adeilad ac yn cuddio'r broblem sylfaenol
- Defnyddio bleindiau/gorchuddion ffenestri mewn tywydd poeth i leihau cynnydd solar
- Diffodd offer trydanol a goleuadau diangen i leihau cynnydd gwres
- Cadw drysau a ffenestri ar gau os oes aerdymheru / oeri ar waith

### 6b. Cyfrifoldebau Ystadau

- Anelu at wresogi ac oeri adeiladau fel y nodir yn y polisi hwn
- Ymchwilio i gwynion am or/tandwymo yn brydlon a darparu adborth priodol
- Mewn achosion lle mae'r terfynau tymheredd a nodir uchod yn cael eu bodloni, ond mae anghysur thermol yn dal i gael ei deimlo (er enghraifft, oherwydd drafftiau), bydd yr Adran Ystadau yn archwilio dichonoldeb gwneud gwelliannau i'r ardal hon. Fodd bynnag, yn enwedig mewn adeiladau hŷn a rhestredig, efallai y bydd cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei wneud. Cynhelir arfarniad trylwyr i sicrhau bod yr holl opsiynau amgen wedi'u hystyried cyn i wresogyddion cludadwy gael eu darparu fel dewis olaf
- Os bydd y tymheredd yn uwch na’r safonau pan fydd y gwres yn gweithredu, bydd y Swyddfa Ystadau’n cymryd mesurau rhesymol i leihau'r tymheredd.

### 6c. Gwresogi Atodol

Gwaherddir defnyddio offer gwresogi atodol / cludadwy. Mae hyn yn rhannol oherwydd eu costau rhedeg uchel, ond yn bennaf oherwydd y risgiau y maent yn eu peri i ddiogelwch tân, gan fod eu defnyddio yn cynyddu'r llwyth ar gylchedau trydanol, ac mae posibilrwydd y bydd eu defnyddio yn golygu nad yw’r prif systemau gwresogi adeiladau yn gweithio’n iawn.

Ni chaniateir i unigolion brynu / dod â’u gwresogyddion lleol eu hunain, ac os cânt eu darganfod, cânt eu cymryd.

Efallai y bydd angen offer gwresogi atodol neu gludadwy o dan rai amgylchiadau megis mewn argyfwng, methiant mecanyddol y system wresogi neu pan fo asesiad risg wedi nodi angen penodol. Yn yr achosion hyn, bydd yr Adran Ystadau’n darparu offer gwresogi atodol.

Pan wneir ceisiadau am wresogi atodol, dylid rhoi gwybod am y rhain drwy'r ddesg gymorth Ystadau a bydd angen i’r Pennaeth Adran neu'r Deon a'r Pennaeth Cynaliadwyedd eu cymeradwyo. Pan fydd gwresogi atodol yn cael ei gymeradwyo, dim ond rheiddiaduron wedi'u llenwi ag olew a gyflenwir gan

Ystadau y gellir eu defnyddio. Ni chaniateir i ddeiliaid adeiladau ddefnyddio eu gwresogyddion eu hunain.

## 7. Monitro

Bydd y Brifysgol yn sicrhau cadw at y polisi hwn, ac effeithlonrwydd y polisi hwn, drwy'r Tîm Cynaliadwyedd sy'n gyfrifol am fonitro'r defnydd o ynni.

Mae'r polisi hwn i'w ddiweddaru a'i adolygu'n flynyddol.

## 8. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Mae cyfres o gynlluniau rheoli cynaliadwyedd wedi'u datblygu ar gyfer y cyfnod 2025-2028:

- Strategaeth Cynaliadwyedd Amgylcheddol y Grŵp 25-30
- Cynllun Rheoli Carbon
- Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Chynaliadwyedd 25-30
- Cynllun Adeiladu ac Adnewyddu Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Ynni 25-30
- Cynllun Teithio Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Rheoli Gwastraff 25-30
- Cynllun Rheoli Dŵr 25-30
- Cynllun Bwyd Cynaliadwy 25-30
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 25-30

## Awdur(on) y polisi:

**Dan Priddy** **Pennaeth Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd**

## Wedi'i gymeradwyo gan:

**Peter Mannion**

Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd y Grŵp Llywio Cynaliadwyedd

**Dyddiad:** 01/06/2026

## Rheoli Fersiynau’r Ddogfen

| Rhif Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad newid: |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: cymeradwywyd

A yw'r Polisi yn berthnasol i**:** AU

Dyddiad cadarnhau: 01 / 06 / 2026

Dyddiad yn effeithiol o: 01 / 06 / 2026

Dyddiad adolygu polisi: 01 / 06 / 2027

I'w gyhoeddi**:** ar wefan PCYDDS

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David